

# Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Hanes – Fersiwn Ymgynghori



Gwnaed i Gymru.  
Yn barod i'r byd.

## Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg o'r cymhwyster CBAC TGAU Hanes arfaethedig.

Mae'n seiliedig ar Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE).

## Trosolwg o'r Cymhwyster

Bydd y cymhwyster TGAU Hanes yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud hyn:

Cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig<sup>1</sup>, gan roi cyfle i'r dysgwyr:

- feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r cysyniadau sy'n sail i'r dyniaethau, a sut i'w cymhwyso mewn cyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang.
- casglu, cyfiawnhau, cyflwyno, dadansoddi a gwerthuso ystod o dystiolaeth
- dod i gasgliadau gwybodus ond ar yr un pryd deall y gall rhai o'r casgliadau fod yn rhannol neu'n amhendant ac y gellir eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd
- adolygu'n feirniadol y ffyrdd mae'r digwyddiadau a'r profiadau hyn yn cael eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli
- dysgu sut gall amrywiol fydolygon a ffactorau ddylanwadu ar eu canfyddiadau a dehongliadau nhw eu hunain a rhai pobl eraill', gan archwilio sut a pham gall dehongliadau fod yn wahanol
- datblygu gwerthfawrogiad o hunaniaeth, treftadaeth a chynefin, gan gynnwys hanes Cymru a'r Byd
- datblygu dealltwriaeth o natur gymhleth, blwraliaethol ac amrywiol cymdeithasau, ddoe a heddiw, yn benodol straeon pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
- datblygu dealltwriaeth o achosion, canlyniadau ac arwyddocâd y newidiadau a'r rhyng-berthnasau sydd wedi ffurfio cymdeithasau ar wahanol lefelau o ddatblygiad
- deall sut mae cymdeithasau wedi cael eu trefnu, eu strwythuro a'u harwain, yn ardal leol y dysgwyr ac yng Nghymru ac yn fyd-eang yn ogystal.
- archwilio'r cysylltiadau a'r rhyng-ddibyniaethau rhwng y cymdeithasau hyn, yn y gorffennol a'r presennol, yng nghyd-destun globaleiddio byd-eang
- deall natur ryng-gysylltiedig cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol; cyfiawnder ac awdurdod; a'r angen i fyw mewn cymdeithas decach a mwy cynhwysol sy'n wynebu hiliaeth ac yn mynd i'r afael â'r broblem
- myfyrio'n feirniadol ar eu credoau, gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain a rhai pobl eraill
- ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud eu dewisiadau ac arfer eu hawliau a chyfrifoldebau democrataidd
- cyfiawnhau eu penderfyniadau.

<sup>1</sup> <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/datganiadau-o-r-hyn-sy-n-bwysig/>

Cefnogi'r egwyddorion cynnydd<sup>2</sup> drwy annog dysgwyr i:

- ofyn cwestiynau ymholi cynyddol soffistigedig
- dod o hyd i wybodaeth addas, gwneud rhagfynegiadau a damcaniaethau gwybodus, a ffurfio barn ynghylch dibynadwyedd a defnyddioldeb
- ymgysylltu â gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol cynyddol eang a dwfn er mwyn meithrin dealltwriaeth gynyddol glir a chydlynol o'r byd o'u cwmpas
- gweithio gyda nifer cynyddol o ffynonellau gwybodaeth fwyfwy soffistigedig, a dealltwriaeth gynyddol o ffyrdd o ymdrin â hanesion anghyson neu sy'n gwrthdaro
- trosglwyddo sgiliau a gwybodaeth bresennol i gyd-destunau sy'n newydd ac yn gynyddol anghyfarwydd, gan ffurfio cysylltiadau o fewn cyfnodau a lleoedd a rhyngddyn nhw, gan nodi tebygrwyddau a gwahaniaethau, newid a pharhad
- nodi cysylltiadau rhwng dysgu presennol a dysgu blaenorol. Drwy ddatblygu mwy o ddealltwriaeth o'r byd, o bobl eraill ac o'r gwerthoedd sydd ganddyn nhw, mewn amseroedd, lleoedd ac amgylchiadau gwahanol.

Mae'r cymhwyster TGAU Hanes yn cael ei lunio ar sail ystyriaethau pwnc-benodol Llywodraeth Cymru ar gyfer Hanes<sup>3</sup>. Bydd y cymhwyster yn:

- cynnig cyfleoedd i ddeall cyfnodau, digwyddiadau, pobl a diwylliannau gwahanol mewn hanes, gan eu harchwilio ar raddfa leol, genedlaethol a byd-eang
- cynnig cyfleoedd i ddeall arwyddocâd pobl, digwyddiadau a datblygiadau mewn hanes a sut mae'n bosibl dehongli'r rhain mewn ffyrdd gwahanol: mewn gwahanol leoedd ac ar amseroedd gwahanol
- darparu sgiliau i'r dysgwyr i ddeall, dehongli a gwerthuso tystiolaeth hanesyddol er mwyn cael y wybodaeth angenrheidiol i ffurfio barn
- darparu sgiliau i'r dysgwyr i allu gwneud synnwyr o'u lle nhw eu hunain a lle pobl eraill o fewn fframwaith profiad dynol
- cynnig cyfleoedd i ddatblygu chwilfrydedd ac empathi a hefyd y gallu i hidlo a dadansoddi'n feirniadol yr holl wybodaeth sydd ar gael i ni, ffurfio barn sy'n wybodus ac yn gytbwys gan feithrin ymdeimlad o gynefin a'r lle sydd gan bawb yn y byd.

Bydd y cymhwyster TGAU Hanes yn seiliedig hefyd ar y cysyniadau hanesyddol canlynol sydd wedi'u rhestru yn y Meini Prawf Cymeradwyo:

- parhad a newid
- tebygrwydd a gwahaniaeth
- arwyddocâd ac effaith
- achos a chanlyniad

<sup>2</sup> <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/egwyddorion-cynnydd/>

<sup>3</sup> <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/>

Mae pob un o'r cysyniadau hyn yn ategu canllawiau 'Dylunio eich cwricwlwm' Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a champau cynnydd y Dyniaethau.

## Strwythur Arfaethedig y Cymhwyster

**Uned 1: Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru**

Arholiad ysgrifenedig  
30% o'r cymhwyster

**Uned 2: Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop neu'r Byd****Aseiad di-arholiad****20% o'r cymhwyster****Wedi'i marcio gan CBAC****Uned 3: Astudiaeth o gyfnod estynedig**

Arholiad ysgrifenedig  
30% o'r cymhwyster

**Uned 4: Cymru a Phrydain/y DU****Aseiad di-arholiad****20% o'r cymhwyster****Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC**

Cymhwyster unedol fydd hwn.

Ac eithrio Uned 4, sy'n uned derfynol, nid yw trefn gyflwyno'r unedau yn awgrymu unrhyw hierarchaeth. Felly, nid oes yma awgrym o drefn addysgu benodol.

I bob Uned, gall canolfannau ddewis astudio un o'r cyfnodau canlynol mewn hanes:

- canoloesol
- modern cynnar
- modern

Ni fydd canolfannau'n cael dewis ailadrodd cyfnod yn Unedau 1, 2 a 3 ond byddant yn gallu dewis cyfnod i'w ailadrodd yn Uned 4.

### Uned 1 - Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- rhoi mewnwelediad ar ddatblygiad Cymru ar adeg penodol mewn amser.

Asesir Uned 1 drwy arholiad, a fydd ar gael yn y gyfres haf. Bydd arholiad ar gael i'r garfan gyntaf yn haf 2026. Bydd yr arholiad yn cynnwys cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1, AA2 ac AA3; mae'n debygol y byddwn yn anelu at gael pwysoli cyfartal.

Mae'n debygol y bydd yr arholiad yn 1 awr o hyd. Gall canolfannau ddewis un o'r tri chyfnod astudio: canoloesol, modern cynnar neu fodern, heb ailadrodd cyfnod astudio a astudiwyd yn Uned 2 neu 3. Bydd canolfannau'n dewis dau ffocws yn ystod y cyfnod.

### Uned 2 - Astudiaeth fanwl ar hanes Ewrop neu'r Byd

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- astudio ffynonellau a dehongliadau hanesyddol i ddod i ddeall mater yn hanes Ewrop neu'r byd.

Bydd yr uned hon ar ffurf asesiad di-arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf. Bydd yr uned hon yn targedu AA2, AA3 ac AA4. Mae'n debygol y bydd y pwysoli uchaf am AA4 oherwydd natur ymholi'r asesiad di-arholiad, gyda'r un pwysoli am AA2 ac AA3. Gall canolfannau ddewis un o'r tri chyfnod astudio: canoloesol, modern cynnar neu fodern, heb ailadrodd cyfnod astudio a astudiwyd yn Uned 1 neu 3. Bydd canolfannau'n dewis dau ffocws yn ystod y cyfnod.

Bydd yr asesiad di-arholiad yn dilyn proses o ymholi aml-gam gan ddefnyddio deunyddiau ysgogi a ddarparwyd gan CBAC; bydd y rhain yn cael eu rhyddhau ym mis Medi yn y flwyddyn academaidd cyn cyflwyno'r asesiad di-arholiad. Bydd y deunyddiau ysgogi'n newid bob blwyddyn ac ar gael am y tro cyntaf ym mis Medi 2026 yn barod i'w cyflwyno ym mis Medi 2027. Mae'n debygol y bydd lefel isel o reolaeth yn ystod y cam ymchwil ac ymchwilio a lefel uchel o reolaeth yn ystod y cam asesu ffurfiol. CBAC fydd yn gosod ac yn marcio'r asesiad di-arholiad. Bydd tua 2 awr ar gael i ysgrifennu'r asesiad. **Rhaid** cyflwyno'r asesiad di-arholiad yn ddigidol.

### Uned 3 - Astudiaeth o gyfnod estynedig

**Pwrpas yr uned hon yw:**

- cynnig trosolwg o gyfnod estynedig gan alluogi dysgwyr i archwilio cysyniadau allweddol.

Asesir Uned 3 drwy arholiad, a fydd ar gael yn y gyfres haf. Bydd arholiad ar gael i'r garfan gyntaf yn haf 2026. Bydd yn cynnwys cymysgedd o fathau o gwestiynau a fydd yn targedu AA1, AA2 ac AA3, ac mae'n debygol y bydd ganddyn nhw bwysoli cyfartal.

Mae'n debygol y bydd yr arholiad tua 1 awr 30 munud o hyd er mwyn adlewyrchu ymdriniaeth yr uned â'r cyfnod estynedig. Bydd canolfannau'n dewis o'r tri chyfnod astudio, heb ailadrodd y cyfnod astudio a astudiwyd yn Uned 1 neu 2, a dau ffocws.

## Uned 4 - Cymru a Phrydain/y DU

### Pwrpas yr uned hon yw:

- rhoi mewnwelediad i ddatblygiad Cymru a Phrydain/y DU drwy astudio digwyddiadau â thema benodol dros gyfnod amser estynedig.

Asesiad di-arholiad fydd yr uned hon a fydd ar gael yn y gyfres haf. Bydd yr asesiad di-arholiad yn targedu AA2, AA3 ac AA4. Mae'n debygol y bydd y pwysoli uchaf am AA4 oherwydd natur ymholi'r asesiad di-arholiad, gyda'r un pwysoli am AA2 ac AA3. Bydd CBAC yn gosod themâu ar gyfer yr asesiad di-arholiad. Darperir y themâu ym mis Medi yn y flwyddyn academaidd y bydd yr asesiad di-arholiad yn cael ei gyflwyno; bydd ar gael am y tro cyntaf ym mis Medi 2026, i'w gyflwyno yng nghyfres haf 2027.

Bydd dewis ar gael o ran y cyfnod y gall canolfannau ddewis ei astudio. Y gwahaniaeth mawr yn Uned 4 yw bod canolfannau'n gallu dewis astudio cyfnod a astudiwyd ganddyn nhw'n flaenorol yn Unedau 1, 2 neu 3.

Bydd yr asesiad di-arholiad yn dilyn proses ymholi aml-gam lle mae dysgwyr yn datblygu eu rhagdybiaeth hanesyddol eu hunain ar sail themâu. Rydym yn ystyried naw thema osod ar hyn o bryd, gyda'r dysgwyr yn gallu dewis o dair o'r naw thema a fydd yn newid bob blwyddyn. Bydd CBAC yn gosod yr asesiad di-arholiad, bydd yn cael ei farcio gan ganolfannau a'i gymedroli gan CBAC. Mae'n debygol y caniateir 6 awr ar gyfer yr asesiad, yn cynnwys amser i gwblhau'r gwaith ymchwil. Mae'n debygol y bydd lefel isel o reolaeth yn ystod y cam ymchwil a lefel uchel o reolaeth yn ystod y cam asesu ffurfiol. **Rhaid** cyflwyno'r asesiad di-arholiad yn ddigidol.

## Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd

Wrth ddatblygu'r amlinelliad hwn o'r cymhwyster arfaethedig, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd, a hefyd sut i gydbwysu'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn ôl gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo, mae angen asesu 40% o'r cymhwyster drwy asesiad di-arholiad; bydd CBAC yn gosod ac yn marcio un asesiad di-arholiad (Uned 2) a bydd yr asesiad di-arholiad arall (Uned 4) yn cael ei osod gan CBAC, ei farcio gan ganolfannau a'i gymedroli gan CBAC. Gallai hyn olygu rhai heriau o ran hydrinedd. Bwriadwn leihau'r heriau hydrinedd i'r eithaf drwy ryddhau deunyddiau ysgogi ar gyfer Uned 2 a themâu gosod ar gyfer Uned 4 i'r canolfannau ym mis Medi yn y flwyddyn academaidd y bydd yr asesiadau di-arholiad yn cael eu cyflwyno. Bydd gwneud hynny'n rhoi'r hyblygrwydd i ledaenu'r asesiadau a chynnal yr asesiad di-arholiad ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw.

Rhodddwyd ystyriaeth hefyd i'r amser asesu rydym yn debygol o'u dyrannu i'r ddau asesiad di-arholiad er mwyn ceisio lleihau'r effaith ar addysgu a dysgu. Credwn fod 2 awr ar gyfer Uned 2 yn hydrin i ddysgwyr ar lefel TGAU, a byddai cael asesiad di-arholiad o'r hyd hwn yn ein galluogi ni i ddatblygu asesiad dilys sy'n sicrhau bod modd ymdrin â'r cynnwys yn ddigonol. Credwn fod 6 awr ar gyfer Uned 4, gan gynnwys amser i wneud gwaith ymchwil, hefyd yn hydrin i ddysgwyr ar lefel TGAU. Uned derfynol yw hon y mae'n rhaid i'r dysgwyr ymgymryd â hi yn ystod blwyddyn olaf eu cwrs. Bydd yn cynnig cyfle i ddysgwyr ymgysylltu â

chyfnod hanesyddol yn ddigon manwl. Ar ben hynny, bydd yr asesiad di-arholiad arall (Uned 2) yn cynnwys deunyddiau ysgogi wedi'u darparu gan CBAC, ac mae hynny'n golygu y bydd yr un deunyddiau ysgogi ar gael i bob dysgwr. Mae'r cyferbyniad hwn yn arddull yr asesu di-arholiad yn golygu bod y cydbwysedd yn gyffredinol drwyddi draw, ac mae hynny'n cael ei ystyried yn briodol o ran yr elfen hydrinedd. Bydd hyn yn bodloni'r gofyniad yn y Meini Prawf Cymeradwyo i ganiatáu i ddysgwyr fynd i'r afael â ffynonellau, ac yn sicrhau dibynadwyedd, hydrinedd a thegwch i ganolfannau.

Rydym yn rhagweld y bydd lefel isel o reolaeth am y ddau asesiad di-arholiad, yn ystod y cam ymchwil, fel y gall dysgwyr gael profiad ymholi dilys. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau dibynadwyedd, bydd cyfarwyddyd ar gael o ran y nodiadau y bydd modd eu defnyddio wrth ymateb i'r tasgau asesu di-arholiad. Mae'n debygol y bydd lefel uchel o reolaeth yn cael ei defnyddio yn ystod y cam asesu ffurfiol er mwyn sicrhau dibynadwyedd. Bydd hyn yn bodloni'r gofyniad yn y Meini Prawf Cymeradwyo bod dysgwyr yn gallu dangos ystod o sgiliau ymholi ac ymchwilio gan gynnwys y gallu i feddwl yn feirniadol a'r gallu i fyfrio.

Credwn y dylai'r cymhwyster arfaethedig gynnig cyfleoedd i ganolfannau ddatblygu rhaglen astudio ddeniadol ar gyfer eu dysgwyr, yn unol â disgwyliadau'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd Uned 1 yn caniatáu i ddysgwyr gynnal astudiaeth fanwl o gyfnod o Hanes Cymru. Bydd Uned 2 yn caniatáu i ddysgwyr gynnal astudiaeth fanwl ar Hanes Ewrop neu'r Byd; mae'r ddwy uned yn ategu'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig i 'ddatblygu gwerthfawrogiad o hunaniaeth, treftadaeth a chynefin, gan gynnwys hanes Cymru a'r Byd'. Mae Uned 3 yn caniatáu i ddysgwyr astudio cyfnod a astudiwyd ganddyn nhw'n flaenorol yn fanylach, gan ganolbwyntio ar agwedd ar hanes sydd o ddiddordeb arbennig iddyn nhw. Mae hyn yn ategu'r egwyddor cynnydd i 'ymgysylltu â gwybodaeth a chysyniadau sylfaenol cynyddol eang a dwfn er mwyn meithrin dealltwriaeth gynyddol glir a chydlynol o'r byd o'u cwmpas'. Yn Uned 4, mae dysgwyr yn gallu datblygu eu rhagdybiaeth eu hunain; mae hyn yn ategu'r egwyddor cynnydd i 'ddod o hyd i wybodaeth addas, gan wneud rhagfynegiadau a damcaniaethau gwybodus, a gwneud penderfyniadau ynghylch dibynadwyedd a defnyddioldeb'.

Credwn fod yr asesiadau di-arholiad arfaethedig ar gyfer Unedau 2 a 4 yn ffordd ddilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys gan eu bod yn caniatáu i ddysgwyr ddangos eu sgiliau mewn cyd-destunau priodol. Er mwyn sicrhau dibynadwyedd yr asesiadau di-arholiad, byddwn yn sicrhau bod pob uned yn targedu'r un pwysoliadau o ran yr amcanion asesu dros amser. Datblygir meini prawf marcio ar gyfer y ddwy uned asesu di-arholiad. Yn achos Uned 4, bydd athrawon yn derbyn pecyn o gefnogaeth a fydd yn sicrhau bod y meini prawf marcio'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws y canolfannau a dros amser. Byddwn yn cymedroli sampl o waith y ganolfan fel ffordd ychwanegol o sicrhau dibynadwyedd.

O ran pwrpas a chynnwys Unedau 1 a 3, credwn mai asesiad drwy arholiad yw'r asesiad mwyaf dilys, ac y gall cymysgedd o fathau o gwestiynau ein helpu i wneud y mwyaf o'r dilysrwydd. Wrth i ni ddatblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, gan gydbwyso'r cynnwys dros amser yn briodol ac alinio'r eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr unedau arholiad yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd asesywyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwyso'n gyson.

Byddwn yn parhau i ystyried cydbwysedd hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

## Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o [Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Hanes](#) Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

### Pwrpas

#### 1. Rhaid i **TGAU Hanes**:

- 1.1 gael ei dylunio'n bennaf ar gyfer Dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed
- 1.2 adeiladu ar y dealltwriaeth gysniadol y mae Dysgwyr wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
- 1.3 cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n briodol o eang, heriol, perthnasol a diddorol sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei [bedwar diben](#)
- 1.4 galluogi Dysgwyr i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad Dysgwyr mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae Dysgwyr yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud

### Nodau

#### 2. Rhaid i **TGAU Hanes**:

- 2.1. ganiatáu i Ddysgwyr archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â hanes
- 2.2. darparu cyfleoedd i Ddysgwyr gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol ac ystyrlon

#### 3. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Hanes** gefnogi Dysgwyr i:

- 3.1. ddatblygu'r wybodaeth a'r dealltwriaeth sydd ganddyn nhw am ddigwyddiadau, cyfnodau a chymdeithasau hanesyddol penodol ar raddfa leol, genedlaethol a byd-eang
- 3.2. ehangu eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o hunaniaeth, treftadaeth a hanes Cymru a'r byd ac i ddatblygu ymdeimlad o gynefin
- 3.3. dod yn haneswyr annibynnol, beirniadol a myfyrgar trwy sgiliau ymholi hanesyddol, cwestiynu, a dadansoddi a gwerthuso ffynonellau
- 3.4. llunio honiadau hanesyddol dilys a realistig trwy ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau yn eu cyd-destun i ddod i farn â sail gadarn
- 3.5. dangos gwerthfawrogiad beirniadol o'r cysyniad o arwyddocâd hanesyddol, gan gynnwys:
  - 3.5.1. pam mae rhai pobl, digwyddiadau a datblygiadau yn cael eu hystyried o bwys hanesyddol
  - 3.5.2. pam mae gwahanol ddehongliadau wedi'u llunio am bobl, digwyddiadau a datblygiadau o bwys hanesyddol
- 3.6. meithrin dealltwriaeth o hunaniaethau gwahanol, gan gynnwys eu hunaniaeth eu hunain, o fewn cymdeithas gymhleth, luosog ac amrywiol



## Amcanion Asesu

Yn yr asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol yn y cymhwyster, rhaid targedu'r amcanion asesu canlynol i gyfateb i'r pwysoli a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.

<b>AA1</b>	<b>Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth</b> o nodweddion allweddol y cyfnod a astudiwyd	30%
<b>AA2</b>	<b>Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth</b> i gysyniadau hanesyddol megis achos a chanlyniad, parhad a newid, tebygrwydd a gwahaniaeth, ac arwyddocâd	20%
<b>AA3</b>	<b>Dadansoddi, gwerthuso neu wneud penderfyniadau</b> ar ddeunydd ffynhonnell, dehongliadau hanesyddol a dadleuon hanesyddol, gan syntheseiddio'r llinynnau hyn lle bo hynny'n briodol	30%
<b>AA4</b>	<b>Dewis, defnyddio a chymhwyso sgiliau a thechnegau</b> yn ymarferol i ymgymryd ag ymholiadau hanesyddol.	20%

## Cynllun asesu

- Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Hanes** fod yn unedol.
- Ni fydd haenau yn y cymhwyster hwn.

Rhaid i'r fanyleb **TGAU Hanes** gynnwys y trefniadau asesu a ganlyn:

11.1. dau asesiad arholiad sydd:

11.1.1. yn cael eu gosod a'u marcio gan y corff dyfarnu

11.1.2 yn cyfrif am 60% o'r cymhwyster

12. Rhaid i amseriad yr arholiadau gael ei osod gan y corff dyfarnu.

13. Rhaid cael dau asesiad di-arholiad sy'n cyfrif am 40% o'r cymhwyster;

13.1. un asesiad di-arholiad wedi'i osod gan y corff dyfarnu, wedi'i farcio'n fewnol gan yr ysgol, a'i gymedroli'n allanol gan y corff dyfarnu

13.2. un asesiad di-arholiad wedi'i osod a'i farcio'n allanol gan y corff dyfarnu

13.3. rhaid gallu cyflwyno'r ddau asesiad di-arholiad yn ddigidol

Rhaid i un uned arholiad fod ar gael yn haf 2026 ar gyfer y garfan gyntaf o *Ddysgwyr* sy'n gwneud y cymhwyster.